

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Mawrth 14eg 2017 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Davies (Cadeirydd), Geraint Jones, Gwynfryn Williams, Arwel Davies, Jean Roberts, Euros Puw, Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynedd Jones ag Rhys Richards.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Datgan Buddiant.

Nodwyd buddiant y cynghorwyr gyda'r ceisiadau ariannol perthnasol.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Cyllideb Cynnal Llwybrau Cyhoeddus.

Trafodwyd yr wybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd gan y Bartneriaeth ynglŷn â chostau torri'r llwybrau a'r toriadau i'r cyllid blynyddol. Penderfynwyd na fyddai'r cyfraniad a ofynnwyd am yn gallu cael ei gyfiawnhau, felly cytunwyd na fyddai'r Cyngor yn cyfrannu unrhyw arian ychwanegol tuag at gostau torri'r llwybrau.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

- i) DEWIS Cymru - cytunwyd i arddangos y poster a oedd yn hyrwyddo'r wefan lle'r oedd gwybodaeth am sefydliadau lles yng Nghymru.
- ii) Etholiadau Cynghorau Tref / Cymuned - 4/5/17. Dosbarthwyd y pecynnu enwebu a chytunwyd y byddai'r cler yn dychwelyd y ffurflenni gorffenedig i swyddfa Cyngor Gwynedd yn Nolgellau cyn diwedd y cyfnod enwebu.
- iii) 'Eich Ardal Chi – Beth Sy'n Bwysig' – fersiwn draft o'r asesiad.

b) Un Llais Cymru

- i) Derbyniwyd gwybodaeth am y cwrs hyfforddiant yng Nghanolfan Henblas ar y 15/3/17.
- ii) Bwletin Chwefror 2017 - Gwybodaeth am y materion a fydd o dan sylw'r archwilwyr ariannol dros y blynyddoedd nesaf.

c) Amrywiol

- i) Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru – Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Gwynedd.
- ii) Llywodraeth Cymru – Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol.

Materion Ariannol.

i) Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.

Cyflwynodd y cler yr adroddiad ariannol i ddiwedd Chwefror a chafwyd yn gywir.

ii) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog y cler (Ionawr i ddiwedd Mawrth), CTHEM (TWE), Neuadd Maesywaen (Llogi).

iii) Yn dilyn trafodaeth cytunwyd bod y swm o arian a gadwir wrth gefn yn isel a phenderfynwyd lleihau'r cyfraniadau blynyddol i fudiadau ac elusennau a chadw arian ychwanegol wrth gefn ar gyfer unrhyw wariant annisgwyl yn y flwyddyn ariannol nesaf. Cytunwyd i gyfrannu i'r canlynol:-

Eisteddfod Talybont, Cylch Meithrin/ Ti a Fi Maesywaen, Neuadd Y Parc, (Arwel Davies, Jean Roberts ac Euros Puw yn datgan buddiant), Ysgol Bro Tryweryn, Sioe Ardal Maesywaen, Urdd Gobaith Cymru Cylch Penllyn, CFFI Meirionnydd, Ambiwllans Awyr Cymru, Hosbis Tŷ'r Eos, Cantref, Ysgol y Berwyn, a Sefydliad Aren Cymru.